**Eluned Morgan AS/MS**
**Y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol**
**Minister for Health and Social Services**

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Eich cyf/Your ref P-06-1269
Ein cyf/Our ref EM/03812/22

Jack Sargeant AS
Cadeirydd – y Pwyllgor Deisebau
Senedd Cymru
Bae Caerdydd
Caerdydd
CF99 1SN

18 Tachwedd 2022

Annwyl Jack,

Diolch ichi am eich llythyr dyddiedig 27 Hydref 2022 yn amgáu cwestiynau dilynol gan y deisebwyr at y Pwyllgor Deisebau mewn perthynas â Deiseb P-06-1269 Peidiwch â gadael i'r cynllun redeg allan ar gyfer pobl sy'n marw yng Nghymru.

Rwy’n ymateb isod i’r cwestiynau hyn.

**O gofio’r ymrwymiad yn y Rhaglen Lywodraethu 2021-2026 i flaenoriaethu gofal diwedd oes, hoffem wybod faint o amser sy’n cael ei roi i’r agenda gofal diwedd oes gan bob aelod o staff yn Llywodraeth Cymru.**

Mae’n anodd rhoi canrannau cwbl gywir ar gyfer staff sy’n gweithio ar yr agenda gofal diwedd oes gan fod y tri aelod o staff dan sylw hefyd yn darparu cymorth ar gyfer nifer o gyflyrau iechyd difrifol eraill, ac mae eu hadnoddau’n cael eu defnyddio yn ôl yr angen. Fodd bynnag, dylid nodi y bydd yr agenda gofal diwedd oes hefyd yn cael cymorth oddi wrth amrywiaeth o ffynonellau eraill Llywodraeth Cymru, gan gynnwys cynghorwyr nyrsio, cynghorwyr gofal sylfaenol, y Prif Weithiwr Proffesiynol Perthynol i Iechyd, staff gofal cymdeithasol, staff y gweithlu, ac arweinwyr clinigol eraill, a hynny’n ychwanegol at y tri aelod o staff uchod.

**Hefyd, o ystyried y cynnydd diweddar yn y capasiti gofal diwedd oes yng Nghydweithrediaeth y GIG, a ydym yn debygol o weld cynnydd cyfatebol mewn capasiti yn Llywodraeth Cymru er mwyn cyflymu’r broses o weithredu’r Rhaglen ar gyfer Gofal Diwedd Oes?**

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1SN

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400
Gohebiaeth.Eluned.Morgan@llyw.cymru
Correspondence.Eluned.Morgan@gov.wales

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

Mae bwrdd newydd y rhaglen genedlaethol ar gyfer gofal diwedd oes yn gyfrifol am symud y polisi gofal diwedd oes yng Nghymru yn ei flaen, gan gynnwys gweithredu'r datganiad ansawdd a gyhoeddwyd yn ddiweddar ar gyfer gofal lliniarol a gofal diwedd oes. Roedd hyn yn gofyn am adnoddau ychwanegol, a dyna pam y gwneuthum y penodiadau ychwanegol o fewn Cydweithrediaeth y GIG, fel y cyfeiriwyd atynt yn fy ymateb blaenorol i'r Pwyllgor.

Y Gyfarwyddiaeth Ansawdd a Nyrsio, a reolir gan y Dirprwy Brif Swyddog Meddygol a'r Prif Swyddog Nyrsio, sy'n gyfrifol am yr agenda gofal diwedd oes, ac mae'r ddau bennaeth hyn yn monitro'r adnoddau sydd eu hangen ar draws eu holl feysydd polisi, gan symud adnoddau i feysydd o flaenoriaeth neu i feysydd lle mae angen cymorth ychwanegol, yn ôl y gofyn.

Rwy'n gobeithio bod yr wybodaeth hon o gymorth i'r Pwyllgor.

Yn gywir,



**Eluned Morgan AS/MS**
Y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol
Minister for Health and Social Services